

Hawlfraint - Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus

Cwynion

Mae'r drefn gwyno hon wedi cael ei dyfeisio'n benodol i drin cwynion yn ymwneud efo ailddefnyddio gwybodaeth, nid mynediad at wybodaeth. Bydd cwynion am fynediad at wybodaeth yn cael eu trin o dan y drefn gwyno arall ar gyfer rheiny. Os byddwch yn anfodlon am y ffordd cafodd cais am wybodaeth ei drin, ac na chawsoch eich bodloni trwy drafod efo'r Swyddog sy'n delio efo'r mater, rydym wedyn yn eich annog i ddefnyddio'r drefn isod.

1. Dylai eich cwyn gael ei wneud mewn ysgrifen a'i yrru at y Pennaeth Diwyllant & Hamdden, Pencadlys y Llyfrgell, Yr Wyddgrug neu trwy e-bost at lawrence.rawsthorne@sirymfflint.gov.uk gan roi manylion llawn o'ch cwyn.

2. Bydd neges mewn ysgrifen yn cael ei yrru atoch i gydnabod, a bydd yr ymateb gwreiddiol i'ch cais yn cael ei ymchwilio a'i adolygu. Dylech gael ymateb i'ch cwyn o fewn 20 diwrnod gwaith, ond gall ymateb i gais am wybodaeth addysg gymryd 20 diwrnod tymor ysgol. Ni fydd y person sy'n adolygu'r ymateb gwreiddiol wedi bod yn cymryd rhan mewn prosesu eich cais gwreiddiol, sef yr un sy'n destun eich cwyn.

3. Os ydi'ch cwyn yn un cymhleth, efallai na fydd modd delio efo fo o fewn yr amserlenni uchod. Yn y fath sefyllfa, bydd adroddiad ar sut mae pethau'n symud ymlaen yn cael ei yrru atoch o fewn yr amserlenni uchod.

4. Os bydd y Pennaeth Diwyllant & Hamdden wedi bod yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau efo'ch cais gwreiddiol, bydd eich cwyn yn cael ei ystyried gan Uwch Swyddog arall o fewn yr amserlenni uchod.

5. Os byddwch yn parhau i fod yn anfodlon efo'r drefn uchod, efallai y byddwch eisiau gwneud cais i'r [Office of Public Sector Information, Admiralty Arch, North Side, The Mall, London SW1A 2WH](#)